

Adroddiad i'r Cyngor
ar
Weithredu Polisi'r Brifysgol ar Gydraddoldeb Hiliol
Gorffennaf 2005

1. Cyd-destun

- (i) Hwn yw'r 3^{ydd} Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb Hiliol ers i Brifysgol Cymru, Aberystwyth (PCA) fabwysiadu Polisi a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn 2003. Yn yr Adroddiad asesir yr effaith a gafodd y Polisi a'r Cynllun Gweithredu dros y 12 mis blaenorol, yn rhan o ddyletswyddau PCA o dan y **Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Newidiad) (RRAA)**.
- (ii) Paratowyd yr adroddiad gan y Swyddog Cyfle Cyfartal (Swyddog CC) mewn ymgynghoriad â nifer o swyddogion PCA ac aelodau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Ar ôl ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor, caiff yr adroddiad ei gyfieithu i'r Gymraeg a'i wneud yn ddogfen gyhoeddus a fydd ar gael trwy'r wefan Cyfle Cyfartal, <http://www.aber.ac.uk/en/equal-opps/index.php> neu gan y Swyddog CC. Mae adroddiadau blynyddol 2003 a 2004 hefyd i'w gweld ar y wefan uchod.
- (iii) Anfonir copi o'r adroddiad hefyd i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a wnaeth gais ar iddo gael ei gyflwyno cyn 22 Gorffennaf 2005 i gyd-daro â'i amserlen ei hun o gynllunio strategol. Derbyniwyd adborth cyffredinol a phenodol gan y Cyngor Cyllido ar Adroddiad Blynyddol 2004 a ystyriwyd yn *'enghraifft o arfer da'*. Nododd y Cyngor Cyllido y dylai PCA wrth adrodd yn y dyfodol ddangos sut yr oedd canlyniadau monitro yn cael eu hymgorffori i'w chynllun gweithredu. Rhoddwyd ystyriaeth i'r sylw wrth baratoi'r adroddiad hwn.
- (iv) Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, y mae Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, fel y'i newidiwyd gan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Newidiad) 2000 yn rhoi Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol i awdurdodau cyhoeddus i ddileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a hybu perthynas dda rhwng pobloedd o wahanol dras. Y mae'r dyletswyddau hyn yn ymrwymadau cyfreithiol ar y Brifysgol fel sefydliad corfforaethol ac ar aelodau unigol y Cyngor, y staff a'r myfyrwyr. Yn rhan o'i dyletswyddau penodol o dan y Ddeddf mae'n rhaid i PCA:
- Paratoi a chyhoeddi datganiad ysgrifenedig o'i Pholisi Cydraddoldeb Hiliol a sefydlu trefniadau ar gyfer cyflawni ymrwymadau'r polisi;
 - asesu effaith ei holl bolisiau, gan gynnwys y Polisi Cydraddoldeb Hiliol, ar fyfyrwyr a staff o wahanol dras;
 - monitro'r drefn o dderbyn myfyrwyr, cynnydd myfyrwyr a'r drefn o recriwtio a chadw staff o wahanol dras a datblygiad eu gyrfa;
 - cynnwys disgrifiad yn y datganiad ysgrifenedig o'i Pholisi Cydraddoldeb Hiliol o'r trefniadau a wneir i argraffu'r datganiad a chanlyniadau'r asesu a'r monitro.

Crynodeb: *Hwn yw'r 3^{ydd} Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb Hiliol. Barn y Cyngor Cyllido oedd bod adroddiad 2004 yn enghraifft o arfer da.*

2. Statws y Polisi / Cynllun Gweithredu ac Asesu Effeithiau

- (i) Y mae Deddf 2000 yn deddfu bod yn rhaid i PCA (am ei bod yn gorff cyhoeddus) asesu effeithiau ei pholisi Cydraddoldeb Hiliol a'i Chynllun Gweithredu a gweld a yw ei pholisïau a'i gweithdrefnau yn effeithio'n wahanol ar grwpiau ethnig gwahanol. Y bwriad yw i hyn fod yn gymorth i ganfod diffyg cydraddoldeb posibl, osgoi gwahaniaethu, cynorthwyo i ddatblygu polisi a chynyddu tryloywder.
- (ii) Cynhelir asesiad llawn o effeithiau yn ystod 2005-6 a bydd hyn yn darparu gwybodaeth i'r arolwg ar y Polisi Cydraddoldeb Hiliol a'r Cynllun Gweithredu (2003). Bydd Gweithdy Gweithredu'r Ddeddf, *'Impact Assessment and Ensuring Equality'* a drefnir gan yr Uned Her Cydraddoldeb [Equality Challenge Unit (ECU)] ym mis Mehefin 2005 yn cynorthwyo i asesu ac adolygu'r polisi.
- (iii) Yn dilyn asesiad cychwynnol o'i effeithiau, cafodd y Polisi Cydraddoldeb Hiliol (er bod ei statws cyfreithiol yn cael ei gadw ar wahân) ei ymgorffori i Bolisi a Chynllun Gweithredu newydd ar gyfer Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb yn ystod 2004-5.
- (iv) **Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol:** Y mae'r Cynllun Gweithredu yn atodol i'r Polisi Cydraddoldeb Hiliol ac yn manylu 22 o dasgau gan roi amserlen ar eu cyfer. Cyflawnwyd y rhan fwyaf o'r tasgau hyn neu maent ar waith ar hyn o bryd. Bydd pedair eitem sy'n dal heb eu cyflawni yn cael blaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu tair blynedd sydd ar ddod:

Tasg	Tasg Wreiddiol	Maes / Tasg Benodol
1	11	Strategaeth Cyfathrebu Crynodeb Gweithredol o Bolisi a Chynllun Gweithredu i'w hysgrifennu
2	12	Hyrwyddo Cydraddoldeb ac Amrywioldeb Hysbysebu ar wefan Graddedigion Duon ac Asiaidd
3	17	Polisi a Gweithdrefnau Cyffredinol - Review <ul style="list-style-type: none"> • Polisi a Gweithdrefnau Aflonyddu • Gweithdrefnau Cwynion • Gweithdrefn Cwynion Staff / Myfyrwyr • Gweithdrefnau dewis a gosod graddfa swydd staff, gan gynnwys ffurflenni cais.
4	22	Monitro Mireinio trefn cywain data am dderbyn myfyrwyr a'u cynnydd a recriwtio a chadw staff a'u llwybr gyrfa.

- (v) Y mae PCA yn parhau i weithredu yn symbylol gyda'r bwriad o hyrwyddo ac ymgorffori arferion da o ran cydraddoldeb hiliol. Nid oes ar hyn o bryd dystiolaeth i ddangos y gallai polisïau a gweithdrefnau PCA effeithio'n wahanol ar bobl o wahanol dras.

Crynodeb: *Dylai'r Cyngor nodi statws y Polisi / Cynllun Gweithredu a'r Asesiad Effeithiau sydd ar ddod. Y mae Polisi Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb newydd wedi ei weithredu fel rhan o'r asesiad.*

3. Ymgorffori Cydraddoldeb Hiliol i'r Brif Ffrwd

Gwefan Cyfle Cyfartal:

- (i) Aeth Cyfnod 2 gwefan Cyfle Cyfartal PCA yn fyw ym mis Mai 2005. Roedd hyn yn cynnwys ychwanegu ein Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb Hiliol am 2004. Caiff yr adroddiad presennol ei osod ar y wefan ar ôl ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor.
- (ii) Y mae gan wefan Cyfle Cyfartal PCA gysylltiadau at y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Calendar Aml-ffydd y BBC, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a'r Uned Her Cydraddoldeb a chysylltiadau mewnol at Urdd y Myfyrwyr – Swyddogion Lleiafrifoedd Ethnig, Myfyrwyr Rhyngwladol a Chyfle Cyfartal.

Digwyddiadau a Chysylltiadau Rhwydweithio:

- (iii) Cynhaliwyd yr achlysuron rhwydweithio canlynol, yn gysylltiedig â chydraddoldeb hiliol, yn 2004-5:

Medi 2004	Gwaith gyda'r Gwasanaeth Cyngori ar Yrfaeodded ar brosiectau 'Go Wales'.
Medi 2004	Ffair y Myfyrwyr newydd yn hyrwyddo Cydraddoldeb Hiliol a Chyfle Cyfartal yn gyffredinol.
Tach 2004	Cyfarfod â NIACE (National Institute of Adult Continuing Education) am lawnsio'r Grŵp <i>Black Practitioners</i> yng Nghanolbarth Cymru yn 2005.
Medi -Rhag 2004	Polisi Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb yn cael ei gwblhau gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal a'i fabwysiadu gan y Cyngor.
Rhag 2004	Sefydlu Prosiect peilot gyda Dim Prob i gynnal 'English as an Additional Language in Schools'. Cynhaliwyd y prosiect mewn ysgol gynradd leol lle mae'r boblogaeth ethnig fwyaf. Daw'n rhan o'r cwricwlwm o fis Medi 2005 ymlaen.
Ebrill 2004	Wythnos Un Byd, a drefnwyd gan Urdd y Myfyrwyr.
Mai 2004	Stondin yn AberPride Mini Mardi Gras a oedd hefyd yn hyrwyddo pecynnau Heddlu Dyfed-Powys <i>True Vision</i> ar ymdrin â throseddau yn erbyn Hil a Chrefydd.
Mehefin 2004	Mynychu cyfarfod allanol a drefnwyd gan Heddlu Dyfed Powys i Grwpiau a dan-gynrychiolir.

- (iv) Y mae rhwydweithio allanol yn parhau gyda'r Uned Her Cydraddoldeb (UHC), y Comisiwn Cyfle Cyfartal, Heddlu Dyfed Powys a phrifysgolion eraill. Y mae PCA hefyd yn cymryd rhan mewn grŵp UHC Cymru-gyfan sy'n cynnwys cynrychiolydd o'r Cyngor Cyllido. Yn fewnol, y mae'r Swyddog CC yn parhau i gadw cyswllt ag Urdd y Myfyrwyr ar faterion cydraddoldeb hiliol.
- (v) PCA yw prif bartner Partneriaeth Ehangu Mynediad Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac un o'r meini prawf i fanteisio ar weithgaredd y bartneriaeth yw bod cynrychiolaeth o blith cymunedau ethnig lleiafrifol ymhlith yr aelodau. Gweithgaredd blaenllaw'r Bartneriaeth yw Prifysgol Haf Cymru, sy'n anelu i recriwtio 10% o'i myfyrwyr o blith grwpiau ethnig lleiafrifol. I gyflawni hyn, gwnaeth y Bartneriaeth ymdrech sylweddol i ddatblygu perthynas gref ag ysgolion a cholegau yn ne Cymru lle mae nifer uwch na'r cyffredin o ddisgyblion o grwpiau ethnig lleiafrifol. Yn yr un modd, y mae Canolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol PCA wedi datblygu cysylltiadau â Pharthau Gweithredu Addysgol yng ngorllewin canolbarth Lloegr, ac fe ddaw nifer dda o fyfyrwyr o gefndir ethnig lleiafrifol i Ddyddiau Rhagflas yn PCA.

Hyfforddiant:

- (vi) Y mae'r Swyddfa Datblygu Staff yn parhau i gyflenwi hyfforddiant i staff o bob categori ar faterion cysylltiedig â chyfle cyfartal ac amrywioldeb. Y mae cymryd y cwrs 'Cyfle Cyfartal wrth Recriwtio a Phenodi' yn dal i fod yn gymhwyster ar gyfer gwasanaethu yn aelod o banel penodi; yn 2004-5 bu dros 50 o staff ar y cwrs. Y mae'r cwrs hyfforddi hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gyda golwg ar ddiweddarau'r cynnwys.
- (vii) Cyflwynwyd dau sesiwn ar gyfle cyfartal ac amrywioldeb i dros 150 o athrawon ysgol TAR cynradd ac uwchradd yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd sesiwn pellach 'Ensuring Equal Opportunities for all' i staff Gwasanaethau Gwybodaeth.
- (viii) Ar hyn o bryd mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a'r Swyddog Cyfle Cyfartal yn cynllunio sesiynau hyfforddi i staff uwch er mwyn parhau i ymgorffori materion amrywioldeb ar bob lefel ym mhrif ffrwd prosesau PCA wrth wneud penderfyniadau a chreu polisiau.
- (ix) Y mae PCA wedi ymrwymo i gyflenwi hyfforddiant gorfodol ar Gyfle Cyfartal ac Amrywioldeb (yn cynnwys elfen ar gydraddoleb hiliol) i'r holl staff ac y mae rhaglen e-ddysgu o'r enw 'Introducing Diversity at Work' wedi ei dewis fel peilot ym mis Chwefror a Mawrth 2005. Ar hyn o bryd y mae PCA yn chwilio am ddulliau cost effeithiol o brynu a chyflenwi fersiwn ddwyieithog o'r rhaglen hon; y mae ffynonellau cyllid ar gyfer cyfieithu a'r posibilrwydd o gydweithio â sefydliadau addysg uwch eraill yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.
- (x) Y mae'r Swyddog CC yn parhau i gynorthwyo'r Rhwydwaith Aflonyddu Personol sy'n cynnig cymorth cyfrinachol a gwybodaeth i staff a myfyrwyr y brifysgol ar broblemau sy'n gysylltiedig â gwahaniaethu. Cynhelir y cyfarfodydd rhwydweithio unwaith y mis yn ystod y tymor. Yn 2004-5 cafodd aelodau newydd a phresennol hyfforddiant cyfle cyfartal i ddiweddarau eu gwybodaeth am ddeddfwriaeth. O ganlyniad i farchnata gweithgar o'i gwasanaethau gan y rhwydwaith, cafwyd tystiolaeth o gynnydd mewn ymwybyddiaeth a sensitifrwydd yng nghymuned y brifysgol ar faterion aflonyddu.

Adolygu, datblygu a monitro Cyfle Cyfartal

- (xi) Cyfarfu'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal, cyd-bwyllgor o'r Cyngor a'r Senedd, deirgwaith yn ystod y flwyddyn. Y mae'n parhau i gydgyssylltu strategaeth cyfle cyfartal PCA, i ffurfio polisiau, monitro'r gwaith o'u gweithredu, cynghori ar ddatblygiadau cyfreithiol a hybu a lledaenu arferion gorau.

Crynodeb: Caiff y gwaith o ymgorffori cydraddoleb hiliol i'r polisiau prif ffrwd ei gynnal trwy ddiweddarau'r wefan Cyfle Cyfartal, rhwydweithio/hyfforddiant mewnol ac allanol a strategaeth hyfforddiant gorfodol.

4. Monitro Ethnig

- (i) Fel dyletswydd benodol yn sgil newidiad 2000 i'r Ddeddf, mae PCA yn gorfod monitro, fesul grŵp hil, nifer y myfyrwyr sy'n cael eu derbyn a'u cynnydd a nifer y staff a benodir a'u cynnydd. Caiff y data ei ddadansoddi er mwyn sefydlu a oes grwpiau ethnig penodol wedi eu tangynrychioli ac a oes unrhyw rwystr sefydliadol y gellid eu symud.
- (ii) Y mae'r tabl yn Atodiad 1 yn rhoi gorolwg o'r data i'w gasglu am staff a myfyrwyr fel eu cyflwynir yn '*Equality and Diversity Monitoring in Higher Education Institutions: a Guide*

to Good Practice', a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr [HEFCE] – www.hefce.ac.uk. Y mae'n nodi'r gofynion monitro statudol ynghyd ag argymhellion ychwanegol HEFCE a'r ECU.

- (iii) Y mae ffynonellau gwybodaeth mewnol ar gyfer adroddiad 2004-5 yn cynnwys Gwasanaethau Gwybodaeth Reoli, Swyddfeydd Adnoddau Dynol a Datblygu Staff, Denu a Derbyn Myfyrwyr, Swyddfa Academaidd, Rhwydwaith Aflonyddu, Urdd y Myfyrwyr a'r Swyddfa Datblygu a Materion Allanol. Y mae'r ffynonellau allanol yn cynnwys Cyfrifiad Cenedlaethol 2001, Awdurdodau Lleol, Heddlu Dyfed-Powys, Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch [HESA] ac UCAS.
- (iv) Cafodd y data o'r ymarfer Monitro Cyfle Cyfartal a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2004 ei ddiweddarau gan Adnoddau Dynol ar ein system wybodaeth, Cyborg. Y mae hyn yn cynnwys meysydd data wedi eu diweddarau ynghylch ethnigrwydd a chenedligrwydd.

Crynodeb: Amcanion, gofynion a ffynonellau data i fonitro staff a myfyrwyr.

5. Dadansoddi

- (i) Fel a wnaed yn ein adroddiad am 2004, cafodd data eu goladu ar gyfansoddiad y staff a gyflogir gan y Brifysgol a chorff ein myfyrwyr o ran hil, er mwyn gweld ein sefyllfa wrth ddechrau. Rhwng Gorffennaf a Medi 2004 diweddarwyd cronfa ddata Cyborg yn sylweddol er mwyn anfon gwybodaeth at HESA ac er mwyn diweddarau ein cofnodion Personél. Yr oedd hyn yn cynnwys diweddarau'r meysydd 'Tarddiad Ethnig' a 'Chenedligrwydd' ac ychwanegu 'Gwyn-Cymry' i'r categorïau 'ethnig'.
- (ii) **Monitro myfyrwyr:** Y mae'r data am 2003-4 yn dangos poblogaeth myfyrwyr o 9,090, sydd yn cynnwys 365 o israddedigion a 334 o uwchraddedigion o gefndir heb fod yn wyn (i gynnwys Du, Asiaidd, Tsieiniaidd ac amrywiaeth o gefndiroedd cymysg). Fel canran, 7.69% yw hyn o blith corff poblogaeth y myfyrwyr (ychydig o gynnydd o'i gymharu â'r 7.4% a gofnodwyd y llynedd). Gwelir bod 0.62% pellach o'n myfyrwyr o gefndir ethnig arall. Yr oedd 21% o ymgeiswyr a dderbyniwyd i gyrsiau israddedig yn byw yng Nghymru.
- (iii) Y mae graddfa'r cynigion a roddir gan y sefydliad yn gyffredin ar draws yr holl grwpiau ethnig. Nid oes tystiolaeth bod ymgeiswyr nad ydynt yn wyn yn cael eu gwrthod ar raddfa anghymesur.
- (iv) **Monitro staff:** Yn 2004, cofnodwyd 39 o staff o dras nad yw'n wyn/cymysg. Yn 2005, cofnodwyd 50 o staff, o gyfanswm o 1,881, o dras nad yw'n wyn/cymysg. Y mae'r ffigurau hyn yn dangos cynnydd sylweddol yn y nifer o staff Tsieiniaidd ac Asiaidd a gyflogwyd gan PCA yn ystod y flwyddyn. Cofnodwyd ymhellach bod 16 o staff o leiafrifoedd ethnig eraill. Y mae hyn yn rhoi cyfanswm o 3.5% o staff o leiafrifoedd ethnig yn PCA, sy'n gynnydd sylweddol o'i gymharu â'r hyn a gofnodwyd y flwyddyn flaenorol.
- (v) Y mae staff o leiafrifoedd ethnig yn gweithio ar raddfa gyfartal iawn ar draws gwahanol raddfeydd swyddi PCA, ac y mae'r un faint o staff o leiafrifoedd ethnig yn cael eu cyflogi ar lefelau uwch ag sydd ar lefelau gwaith corfforol/staff atodol.
- (vi) Y mae'r Swyddfa Adnoddau Dynol ar hyn o bryd yn adolygu ei threfn o gofnodi ceisiadau am swydd, creu rhestr fer, rhesymau am adael a datblygiad gyrfa. Y

mae'r gwaith o ddiweddarau cronfa-ddata Cyborg ar fin dechrau er mwyn awtomeiddio'r prosesau hyn. Y mae angen gwaith ar gronfa-ddata'r Swyddfa Datblygu Staff er mwyn cofnodi ethnigrwydd y rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddi a datblygu.

- (vii) **Myfyrwyr rhyngwladol:** Y mae gan PCA ar hyn o bryd 844 myfyriwr amser llawn, 584 rhan-amser/dysgu o bell, 137 ar gynlluniau cyfnewid a 10 myfyriwr ar ymweliad, o 104 o wledydd, 23 ohonynt yn Ewrop. Ar hyn o bryd y mae cynrychiolaeth gref o Tsieina (tua 19% o gyfanswm nifer y myfyrwyr). Y mae'r ymdrechion marchnata eleni wedi canolbwyntio ar Thailand, Fietnam a Taiwan, yn ogystal ag ystyried ardaloedd newydd, fel Rwsia a Chanada. Y mae Siapan a Nigeria yn parhau i fod yn ffynhonnell sylweddol o ran ymgeiswyr.
- (viii) **Cymaryddion demograffig:** Y mae cyfrifiad 2001 yn cofnodi bod 1.4% o boblogaeth Ceredigion o dras nad yw'n wyn. Y tebygrwydd yw bod y ffigwr hwn yn uwch mewn gwirionedd gan fod gan Aberystwyth boblogaeth dros-dro o fyfyrwyr. Mae hyn yn cymharu â 2.1% i Gymru a 7.9% i'r DU yn gyffredinol. Yn Aberystwyth ei hun y mae prif grynodiad y lleiafrifoedd ethnig yng Ngheredigion, am mai yno y mae'r Brifysgol a'r ysbyty.
- (ix) Dengys ffigurau gan Heddlu Dyfed-Powys (Cangen Ceredigion), a ddechreuodd gofnodi digwyddiadau troseddol yn gysylltiedig â hil yn 1999, mai ychydig o achosion a gofnodwyd yng Ngheredigion ers y dyddiad hwn.

Crynodeb: Yn ôl cymaryddion staff, myfyrwyr a ddemograffig, gwelir cynnydd yn niferoedd y staff a'r myfyrwyr o gefndir ethnig lleiafrifol yn PCA.

6. Casgliadau

- (i) Y mae PCA yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i ddileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithiol, i hybu cyfle cyfartal a hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl o grwpiau hil gwahanol.
- (ii) Y mae adborth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar Adroddiad Blynyddol 2003-4 yn dweud bod PCA yn 'esiamp' o arferion da'. Cafodd adborth penodol a chyffredinol y Cyngor Cyllido ar greu Adroddiadau Blynyddol ei ystyried wrth baratoi'r adroddiad hwn a'i ymgorffori yn y cynllun gweithredu newydd.
- (iii) Y mae PCA yn parhau i geisio sicrhau bod materion Cydraddoldeb Hiliol a materion Cyfle Cyfartal eraill yn cael eu hymgorffori i brif ffrwd pob agwedd berthnasol o'i pholisïau a'i harferion, ac i ganfod a symud unrhyw rwystrau diangen neu anghyfiawn i unrhyw un gymryd rhan yn eu gweithgaredd. Y mae PCA hefyd wedi ymrwymo i fabwysiadu arferion da wrth weithredu, ac ymgynghori a chyfathrebu ynghylch materion o'r fath.
- (iv) Y mae PCA wedi ymrwymo i weithredu polisi mynediad teg nad yw'n gwahaniaethu ac y mae'n gweithio i gynyddu nifer y ceisiadau o ardaloedd anhraddodiadol. Ymhellach, y mae partneriaeth Ehangu Mynediad Canolbarth Cymru yn gweithio yn agos ag ysgolion partner yng Nghymru a Lloegr er mwyn cynyddu ceisiadau a nifer y myfyrwyr a dderbynnir o grwpiau ethnig lleiafrifol. Y mae'r Adran Datblygu a Materion Allanol hefyd yn marchnata PCA yn ddwys mewn nifer o wledydd.

- (v) Y mae PCA yn cynllunio i gynnal asesiad o effeithiau'r Polisi Cydraddoldeb Hiliol yn ystod 2005-6 ac i adolygu a diweddarau'r polisi a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig am y 3 blynedd nesaf.
- (vi) Yn rhan o'r asesiad o effeithiau ar bolisiau presennol, diweddarwyd ein Polisi Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb yn sylweddol ac y mae'n cael ei hyrwyddo yn drwyadl.
- (vii) Fel rhan o flaenoriaethau strategol yr Adran Adnoddau Dynol y mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol newydd, ynghyd â'r Swyddog Cyfle Cyfartal, yn bwriadu datblygu ymhellach arferion da, yn ogystal â'r agenda cydraddoldeb, ledled y sefydliad.
- (viii) Bydd PCA yn parhau i symbylu cydweithio â phartneriaid a mudiadau allanol er mwyn cydweithio a rhannu arferion da o ran cydraddoldeb hiliol.
- (ix) Y mae'r Swyddog Cyfle Cyfartal yn parhau i gyfrannu i broses cynllunio strategol blynyddol PCA. Y mae cydraddoleb hiliol, ynghyd â materion cydraddoldeb eraill, wedi eu hymgorffori yn helaethach i'n prosesau cynllunio.
- (x) Caiff tasgau sy'n weddill o'n Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, fel a restrir yn Adran 2, *'Status of the Policy/Action Plan and Impact Assessment'* yn yr adroddiad hwn, ei ychwanegu i'n Cynllun Gweithredu 3 blynedd.
- (xi) Yn dilyn dadansoddiad monitro bydd targedau'r flwyddyn i ddod yn cynnwys:
- Arolwg o Bolisi Cydraddoldeb Hiliol PCA a rhoi'r Cynllun Gweithredu 3 blynedd ar waith.
 - Asesiad Effeithiau: a fydd yn cynnwys dadansoddiad systematig o bolisiau ag arferion er mwyn gweld a oes ganddynt effaith wahaniaethol ar grwpiau penodol.
 - Arolwg o farchnata a recriwtio er mwyn cynyddu canran yr ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig o ran staff a myfyrwyr.
 - Gweithredu hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys elfennau cydraddoldeb hiliol, (y mae PCA ar hyn o bryd yn edrych ar ddulliau o ddarparu hyfforddiant o'r fath yn ddwyieithog).
 - Gwaith pellach tuag at fireinio peirianwaith monitro.